


Cenhadu heddiw: Pam a Sut?

Newyddion o Sandfields, Port Talbot 2017



Rwy'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonom wedi gyrru heibio Port Talbot yn y gorffennol ac wedi sylwi ar y mŵg mawr yn codi o'r gwaith dur, ond mae'n debyg nad ydych erioed wedi meddwl troi oddi ar y ffordd i ymweld â'r lle? Wel, ar ddechrau mis Hydref 2017 symudodd Tim a Samantha Hodgins i Sandfields, Port Talbot, oherwydd eu dymuniad i ddangos Crist i bobl ar yr ystâd dai fwyaf enwog yng Nghymru.

Mae Tim, syn cael ei gyflogi gan Henaduriaeth South West, yn egluro pam maen nhw wedi gwneud y symudiad dewr hwn o Bontarddulais: 'Wedi dechrau gweithio ar yr ystâd yn Nhachwedd 2016, sylwedolais yn gyflym nad oedd gyrru yma bob dydd o Bontarddulais yn caniatáu i mi gysylltu llawer â phobl leol. Os ydym yn anelu at ddangos Crist ac yn gobeithio cael effaith yn y gymuned rwy'n credu bod angen i ni fod ymhlith y bobl. Roeddem am i'n tŷ fod yn agos at adeilad yr eglwys, fel y byddai ein cartref yn estyniad o'r genhadaeth wrth inni estyn lletygarwch. Hefyd, roeddem am gael tŷ oedd yr un fath â phawb arall.'

Ddim yn bell yn ôl roedd cynulleidfâ egniol ar yr ystâd yn Fitzclarence Presbyterian, ond doedd y gynulleidfâ oedrannus ddim wedi gallu dal ati, felly caeodd yr eglwys ar ddechrau 2016. Mae Tim a Sam yn defnyddio adeilad yr eglwys – a ail-enwyd yn awr fel SPC Sandfields Presbyterian Church – a'u gweddi yw ei fod yn dod yn Orsaf Genhadaeth lle medrant gwrdd â phobl leol a rhannu Newyddion Da yr Efyngyl. Eu dyhead yw gweld pobl Sandfields yn rhoi



eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu ac yn eu tro, dod yn dystion eu hunain.

Ers dechrau gweithio yn Sandfields yn Nhachwedd 2016 mae'r cwpl wedi ceisio defnyddio gwahanol ffyrdd i gyrraedd y gymuned: 'Mae yna 3 math o genhadaeth,' esboniodd Tim. 'Amcan pob un ohonynt yw dangos Crist ond mae gan bob un bwyslais gwahanol. Mae *Dyddiau Hwyl* wedi bod yn ffyrdd da o ddod i adnabod pobl leol. Digwyddiadau yn rhad ac am ddim ydynt, gyda phethau hwyl i'w gwneud ar gyfer teuluoedd ac unigolion sy'n byw ar yr ystâd. Rydym fel arfer yn cynnwys bwyd, a hynny yn fwyd safonol – rydyn ni am i bobl gael eu hysgogi gan y cariad a'r cyfeillgarwch

hael a ddangosir wrth i ni wasanaethu'r gymuned yn enw Iesu – ac mae rhai sgysiaid gwych wedi dod trwy'r math hwn o ddiwyddiad.'

Mae'r math nesaf o ddiwyddiad yn fwy uniongyrchol – rhywbeth fel *Lunch 'n' Play* – sef grŵp plantos bach gyda Stori Feiblaidd, gweddiâu a chaneuon. Mae'r grŵp yma yn fendith go iawn. Rydym wedi cwrdd â llawer o bobl trwy hyn ac wedi cael sgysiaid a chyfleoedd i drafod Cristnogaeth yn fwy ystyrlon, ynghyd â chyfleoedd i weddio gyda theuluoedd.

Y drydedd fath yw 'blaen y saeth'. Bydd y math hwn o ddiwyddiad yn rhywbeth fel gwasanaeth lle mae'r efyngyl yn cael ei bregethu a'r Ysgrifurau yn cael eu hagar a'u hesbonio. Mae hyn hefyd wedi ei groesawu gan lawer.

Cofiwch am Tim, Sam ac Ethan yn eich gweddiâu gan ddefnyddio'r pwyntiau hyn gan Tim:

- Y bydd ein hymdrechion yn plesio'r Arglwydd. Y bydd yr hadau'n syrthio ar bridd da, ac y byddwn yn adnabod arweiniad Duw i ddirnad gyda phwy a phryd i rannu ei Air.
- Byddai'n perthynas gyda pobl yn cryfhau a bydd mwy o gysylltiadau yn cael eu gwneud gyda phobl leol fel y bydd disgyblion yn gwneud disgyblion ac y bydd y gymuned hon yn gweld Cristnogion yn caru eu cymydog ac yn canmol Iesu fel eu Gwaredwr.

• Y bydd Cristnogion yn dod atom i'n helpu ni yn y gwaith hwn.



Dawnsio yn Sandfields

Sarah Morris
Swyddog CAMU
De-ddwyrain
Cymru